



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 762 (Cy.72)

2006 No. 762 (W.72)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch
Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006**

**The Dairy Produce Quotas (Wales)
(Amendment) Regulations 2006**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, a fydd yn dod i rym ar 31 Mawrth 2006, yn diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005 (O.S. 2005/537) ("Rheoliadau 2005").

These Regulations, which come into force on 31 March 2006, amend the Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/537) ("the 2005 Regulations").

Mae Rheoliadau 2005 yn gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 sy'n sefydlu ardoll yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth (OJ Rhif L 279, 21.10.2003, t.123) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 595/2004 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwysio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 sy'n sefydlu ardoll yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth (OJ Rhif L 94, 31.3.2004, t.22) ("Rheoliad y Comisiwn").

The 2005 Regulations implement Council Regulation (EC) No. 1788/2003 establishing a levy in the milk and milk products sector (OJ No. L 279, 21.10.2003, p.123) and Commission Regulation (EC) No. 595/2004 laying down detailed rules for applying Council Regulation (EC) No. 1788/2003 establishing a levy in the milk and milk products sector (OJ No. L 94, 31.3.2004, p.22) ("the Commission Regulation").

Mae rheoliad 3 yn cywiro gwall yn rheoliad 16 o Reoliadau 2005 sy'n atal trosglwyddiad cwotâu sy'n angenrheidiol i ofalu am gynhyrchu sy'n digwydd cyn y dyddiad trosglwyddo. Mae'r diwygiad hwn yn darparu y caniateir trosglwyddo'r cwota hwnnw, ond ni ellir ei gyfrif fel cwota nas defnyddiwyd.

Regulation 3 corrects an error in regulation 16 of the 2005 Regulations preventing the transfer of quota necessary to cover production taking place before the date of transfer. The amendment provides that such quota may be transferred, but cannot be identified as unused quota.

Mae rheoliadau 4 i 6 yn diwygio darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr a phrynwyr llaeth ddarparu gwybodaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn dyddiad penodedig. Y gofyniad yw bod yr wybodaeth yn cael ei hanfon i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y dyddiad hwnnw neu cyn y dyddiad hwnnw.

Regulations 4 to 6 amend provisions requiring dairy producers and purchasers to provide information to the National Assembly by a specified date. The requirement is that the information is sent to the National Assembly on or before that date.

Mae rheoliad 7 yn cywiro hepgoriad yn rheoliad 36 o Reoliadau 2005 i gosbi prynwyr sy'n anfon crynodebau anghywir ynghylch cynhyrchu y mae'n ofynnol eu cyflwyno o dan Erthygl 8(2) o Reoliad y Comisiwn. Mae hefyd yn darparu bod y gosb ar brynwyr sy'n methu â chyflwyno crynodeb sy'n ofynnol gan Erthygl 8(4) o Reoliad y Comisiwn cyn 1 Gorffennaf yn y flwyddyn pryd y mae ei angen yn

Regulation 7 corrects an omission in regulation 36 of the 2005 Regulations to penalise purchasers who send inaccurate summaries of production required to be submitted under Article 8(2) of the Commission Regulation. It also provides that the penalty for purchasers who fail to submit a summary as required by Article 8(4) of the Commission Regulation before 1 July in the year in which it is required applies 30 days

gymwys 30 o ddiwrnodau ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno hysbysiad i'r perwyl hwn.

Mae Arfarniad Rheoliadol o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael ar gostau busnes wedi'i baratoi ac mae copïau ar gael o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

after the service of a notice by the National Assembly to this effect.

A Regulatory Appraisal of the effect which this instrument will have on the costs of business has been prepared and copies can be obtained from the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2006 Rhif 762 (Cy.72)**2006 No. 762 (W.72)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES****Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch
Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006****The Dairy Produce Quotas (Wales)
(Amendment) Regulations 2006***Wedi'u gwneud* 14 Mawrth 2006*Made* 14 March 2006*Yn dod i rym* 31 Mawrth 2006*Coming into force* 31 March 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yntau wedi'i ddynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(2) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

The National Assembly for Wales has been designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Community and makes the following Regulations under the powers conferred by that section.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 31 Mawrth 2006. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Title commencement and application

1. The title of these Regulations is the Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2006 and they come into force on 31 March 2006. These Regulations apply in relation to Wales.

**Diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth
(Cymru) 2005**

2. Diwygir Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005(3) fel a ganlyn.

**Amendment of the Dairy Produce Quotas (Wales)
Regulations 2005**

2. The Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2005(3) are amended as follows.

3. Yn rheoliad 16(3), yn lle "Ni chaiff neb drosglwyddo cwota sydd ei angen" rhodder "Ni chaiff neb drosglwyddo'n gwota nas defnyddiwyd gwota y mae ei angen".

3. In regulation 16(3), before the word "quota" insert ", as unused, ".

4. Yn rheoliad 23(4)(a), yn lle "cyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol heb fod yn hwyrach na" rhodder "cael ei anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 14 Mai neu cyn".

4. In regulation 23(4)(a), for "reach the National Assembly no later than" substitute "be sent to the National Assembly on or before".

5. Yn rheoliad 33(5)-

5. In regulation 33(5)-

(a) yn lle "ddarparu ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol";

(a) for "provide the National Assembly with" substitute "send to the National Assembly";

(b) yn lle "sicrhau bod y rhestr yn ei gyrraedd heb fod yn hwyrach na" rhodder "ar 14 Mai neu cyn".

(b) for "and ensure that the list reaches it no later than" substitute "on or before".

(1) O.S. 2005/2766.

(1) S.I. 2005/2766.

(2) 1972 p. 68.

(2) 1972 c. 68.

(3) O.S. 2005/537 (Cy.47).

(3) S.I. 2005/537 (W.47).

6. Yn rheoliad 35-

- (a) ym mharagraff (1)(a)-
 - (i) yn lle "â chyflwyno" rhodder "ag anfon" ac yn lle "gyflwyno" rhodder "anfon";
 - (ii) hepgorer "fel bod y datganiad yn ei gyrraedd";
- (b) ym mharagraff (1)(b)-
 - (i) yn lle "â chyflwyno" rhodder "ag anfon" ac yn lle "gyflwyno" rhodder "anfon";
 - (ii) hepgorer "fel bod y crynodeb yn ei gyrraedd";
- (c) ym mharagraff (2), yn lle "a gyflwynwyd" rhodder "a anfonwyd".

7. Yn rheoliad 36-

- (a) ym mharagraff (1), yn lle "and (3)" rhodder "i (3)";
- (b) ar ôl paragraff (2) rhodder-

"(2A) Lle mae prynwr-

- (a) yn anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol grynodeb o ddatganiadau y mae'n ofynnol eu cyflwyno o dan Erthygl 8(2) o Reoliad y Comisiwn, sy'n anghywir; a
- (b) drwy wneud hynny yn achosi gorddatganiad neu danddatganiad ganddo ef neu ganddi hi, o ddanfoniadau a wnaed iddo neu iddi,

mae ef neu hi'n agored i dalu i'r Cynulliad Cenedlaethol gosb sy'n gyfwerth â swm damcaniaethol yr ardoll a fyddai'n ddyledus ar 0.5% o'r maint yn ôl cyfaint y llaeth sy'n ffurfio'r gorddatganiad neu'r tanddatganiad.";

- (c) ym mharagraff (6)-
 - (i) ar ôl "agored i dalu i'r Cynulliad Cenedlaethol", rhodder ",os yw'n cyflwyno hysbysiad,";
 - (ii) ar y diwedd ychwaneger "gan ddechrau ar y degfed diwrnod ar hugain ar ôl cyflwyno'r hysbysiad".

6. In regulation 35-

- (a) in paragraph (1)(a)-
 - (i) for "submit" (wherever occurring) substitute "send";
 - (ii) omit "so that the declaration reaches it";
- (b) in paragraph (1)(b)-
 - (i) for "submit" (wherever occurring) substitute "send";
 - (ii) omit "so that the summary reaches it";
- (c) in paragraph (2), for "submitted" substitute "sent".

7. In regulation 36-

- (a) in paragraph (1), for "and (3)" substitute "to (3)";
- (b) after paragraph (2), insert-

"(2A) Where a purchaser-

- (a) sends to the National Assembly a summary of producers' statements required to be submitted under Article 8(2) of the Commission Regulation, which is inaccurate; and
- (b) by doing so causes an overstatement or an understatement by him or her, of deliveries made to him or her,

he or she is liable to pay to the National Assembly a penalty equivalent to the theoretical amount of levy that would be due on 0.5% of the quantity by volume of milk which comprises the overstatement or understatement.";

- (c) in paragraph (6)-
 - (i) after "liable to pay to the National Assembly" insert ", if it serves notice,";
 - (ii) at the end add "starting on the thirtieth day after service of the notice".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

14 Mawrth 2006

14 March 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 p.38.

(1) 1998 c.38.

2006 Rhif 762 (Cy.72)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch
Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006

2006 No. 762 (W.72)

FOOD, WALES

The Dairy Produce Quotas (Wales)
(Amendment) Regulations 2006

©© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W268/03/06

ON